

## Ymddiswyddiad Duran

Dwi'n recordio'r pwt hwn ar ddydd Llun y cyntaf ar hugain o Orffnaf, a phrif benawd y dydd yn Sbaen yw ymddiswyddiad Josep Antoni Duran i Lleida.

Tan heddiw, Duran oedd ysgrifennydd cyffredinol y glymblaid genedlaetholgar Gatalanaidd, Convergencia i Unió, neu Cydgyfeiriad ac Undod yn Gymraeg.

Er iddo adael ei rôl yn ysgrifennydd cyffredinol y glymbaid, foddbynnag, bydd yn parhau i gynrychioli Barcelona fel aelod yn senedd Sbaen.

Mae arweinydd y glymbaid, Artur Mas, hefyd yn arweinydd ar lywodraeth ranbarthol Catalwnia ar y foment, ac mae'r papur newydd Catalanaidd El Periodico yn awgrymu'n gryf mai anghydfod rhwng Mas a Duran sydd wrth wraidd yr ymddiswyddiad.

Mae'r papur Sbaenaidd El País, ar y llaw arall, yn honni nad yw Duran wedi rhoi eglurhad dros ymddiswyddo -- neu o leia, ddim un digonol.

Mae ef ei hun yn honni ei fod yn ymddiswyddo er mwyn rhoi cyfle i eraill yn y blaid gymryd mwy o gyfrifoldeb ynddi, a'i fod ef ac arweinydd ei blaid bellach yn 'cytuno ar bopeth'.

Un peth nad ydynt bob amser wedi cytuno arno, foddbynnag, yw'r cwestiwn o annibyniaeth, neu hunan-benderfyniad/ hunan-lywodraeth, i Gatalwnia.

O fewn clymblaid Convergencia i Unio mae Duran yn perthyn i Undeb Democrataidd Catalwnia a Mas yn perthyn i Gydgyfeiriad Democrataidd Catalwnia.

Er y tebygrwydd a'r cydweithrediad rhwng y ddwy blaid, bu anghydfod rhwng y ddau wleidydd dros sut yn union i eirio'r cwestiwn ynglŷn ag annibyniaeth i Gatalwnia yn y refferendwm ymgynghorol sydd ar y gweill ynglŷn â'r mater.

Roedd Mas yn ffafrio gofyn os oedd yr etholwyr o blaid gwneud Catalwnia yn aelod gwladwriaethol newydd o'r Undeb Ewropeaidd, a Duran yn ffafrio gofyn yn syml os oedd yr etholwyr o blaid annibyniaeth.

Efallai fod a wnelo hyn â'r ffaith y byddai llywodraeth gannolog Sbaen, yn enwedig o dan ei harweinyddiaeth adain dde bresennol, yn siwr o *wrthwynebu* aelodaeth Catalwnia annibynnol yn yr Undeb Ewropeaidd.

Boed hynny fel y bo, mae Duran a Mas nawr yn mynnu eu bod yn gytun ynglŷn a'r geiriad sydd bellach wedi ei dderbyn gan y *rhan fwyaf* o'r pleidiau Catalanaidd, ac sydd heb fod yn crybwyll Ewrop.

Maent hefyd yn mynnu nad oes gan yr anghydfod gynt ddim oll i'w wneud ag ymddiswyddiad Duran nawr.

Gyda refferendwm rhwymol ynglŷn ag annibyniaeth ar y gweill yn yr Alban, gobeithio y bydd yr haf yn rhoi cyfle i'r glymblaid Gatalanaidd roi safiad cadarnhaol at ei gilydd ar gyfer beth bynnag fo canlyniad y refferendwm hwnnw.

### **Deddf Erthyliad Gallardón**

Datblygiad arall i edrych allan amdano ym mis Medi fydd dod a deddf *erthyly* newydd Sbaen i rym.

Mae Gweinidog y Gyfraith, Alberto Ruíz-Gallardón, sydd yn perthyn i blaid adain dde y PP, neu'r Blaid Boblogaidd, wedi cyhoeddi y bydd y ddeddf yn dod i rym cyn diwedd yr haf.

Byddai'r ddeddf, a'i gelwir yn Ddeddf Gallardón, yn cael gwared ar hawl merched yn Sbaen i erthyliad heblaw mewn achosion o drais, llosgach, neu berygl i fywyd y fam.

Wedi bod drwy broses ymgynghorol, mae hawl i erthyliad mewn achos o anabledd difrifol ar y plentyn hefyd wedi ei ychwanegu.

Fel y gellir dychmygu, mae'r ddeddf wedi denu protestiadau chwyrn, ac mae ffeminyddion yn rhybuddio y bydd yn arwain at sefyllfa debyg i'r hyn sydd yn digwydd yn Iwerddon, gyda merchaid yn gorfod teithio i wledydd eraill yn Ewrop er mwyn cael y driniaeth, gan arwain at sefyllfa eironig ble bydd y cyfoethog yn medru erthyly a'r tlawd yn gorfod dod â phlant nad ydynt yn medru eu cynnal i mewn i'r byd.

Fodd bynnag, nid yw'r ddeddf yn or-wahanol i ddeddf Prydain, ac mae'n llawer llai llym na deddfau Iwerddon mewn gwirionedd: er enghraifft, mae yna hawl i erthyliad mewn achos o berygl i fywyd y fam, gan gynnwys perygl i'w iechyd meddyliol.

Prif bwrpas y ddeddf yw newid erthyliad o fod yn driniaeth y gellir ei chael yn ôl y galw, i fod yn driniaeth *na* ellir ei chael heblaw mewn achos o angen, a bydd yn rhaid i ddau feddyg gytuno ei *bod* yn angenrheidiol, sef y sefyllfa ym Mhrydain hefyd.

Siawns fod hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â hawliau merchaid a'n statws yn y wlad *hon*, os na'n hystyrir yn gymwys i benderfynu drosom ein hunain a oes angen erthyliad arnom.

Efallai fod hyn yn egluro pam nad ydy Deddf Gallardón yn denu mwy o sylw yn ein cyfryngau ni.

### **Dal y Llygoden Fawr**

Un stori sydd wedi denu tipyn o sylw yn ein cyfryngau ni, fodd bynnag, yw'r ffaith fod un o brif ddelwyr cyffuriau'r byd, a adnabyddir wrth yr enw El Ratón, neu'r Llygoden Fawr, wedi cael ei arestio yn Sbaen yr wythnos hon.

O Golombia mae El Ratón yn hanu, ac mae'n debyg ei fod yn gyfrifol am fewnforio'r cyffur cocaine nid yn unig i Sbaen ond hefyd i'r Iseldiroedd a'r Unol Daleithiau.

Cafodd ei Arestio yn Alicante gyda phedwardeg mil ewro yn ei eiddo.

Mae'n debyg ei fod yn gyfrifol, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am bedwar cant o farwolaethau treisgar.

Mae'n siwr y bydd yr Unol Dalaethiau a'r Iseldiroedd yn dathlu ei arestio hefyd felly, er ei fod yn anhebygol o newid tro'r trai yn y rhyfel *ehangach* yn erbyn cyffuriau a dweud y gwir.

Mae cysylltiad Sbaen gydag America Ladin yn rhoi rôl allweddol i'r wlad yn y rhyfel hwnnw, ond mae'r trwch o gyhuddiadau o lygredd sydd wedi eu codi yn erbyn sefydliad gwleidyddol, brenhinol a *heddlu'r* wlad yn ddiweddar, yn codi amheuan ynglŷn ag effeithlonrwydd Sbaen yn chwarae'r rôl honno.

Efallai fod arestio'r Llygoden Fawr yn fwy o fuddugoliaeth symbolaidd na dim felly.

### **Casgliad**

Mae'n siŵr mae'r mater o lygredd sefydliadol fydd yn dal i hawlio penawdau newyddion Sbaen am y tro, ond bydd cwestiwn annibyniaeth i Gatalwnia yn poethi wrth i refferendwm yr Alban nesáu.

Fel yn achos y refferendwm ar gynulliad i Gymru nol yn 1997, bydd canlyniad y refferendwm Albanaidd yn siŵr o gael effaith bellgyrhaeddol y tu hwnt i'r Alban.